# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Canolfan y Dderwen**

**Fforddlas**
**Y Rhyl**
**LL18 2DY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**9 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:* *psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Canolfan y Dderwen yn darparu gwasanaeth gofal dydd llawn ar gyfer uchafswm o 77 o blant hyd at 12 mlwydd oed, ac mae'n ffurfio rhan o'r ganolfan gymorth integredig i deuluoedd yn y Rhyl. Mae'r ganolfan ar agor rhwng 8am a 6pm, ddydd Llun i ddydd Gwener, am 51 wythnos y flwyddyn. Darperir y gofal yn Saesneg yn bennaf, gyda phlant yn cael eu cyflwyno i rai ymadroddion sylfaenol a chaneuon Cymraeg. Mae'r feithrinfa yn cael ei hariannu i ddarparu gofal i blant tair blwydd oed ac, o'r herwydd, caiff ei harolygu gan Estyn. Mae lleoedd ar gael hefyd i blant sy'n rhan o gynllun Dechrau'n Deg. Roger Ellerton a Dawn Anderson yw'r unigolion cyfrifol. Dawn yw'r person â gofal yn y feithrinfa hefyd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu Canolfan y Dderwen yn hapus ac yn llawn brwdfrydedd ynghylch eu profiadau dysgu. Maen nhw'n profi ymglymiadau cadarnhaol â'r staff, sy'n frwdfrydig ac yn ymroddedig tu hwnt i roi amrediad eang o brofiadau cadarnhaol i blant. Mae'r staff yn wybodus, yn feithringar ac yn gyson, ac yn mynd ati'n frwdfrydig i ddiwallu anghenion unigol. Maen nhw'n elwa ar wasanaeth sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n canolbwyntio'n fawr iawn ar y plentyn. Mae'r rhieni'n fodlon tu hwnt ar gynnydd eu plant a'r gwasanaeth a ddarperir.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae arweinwyr wedi buddsoddi grant loteri a ddyfarnwyd iddynt i ddatblygu ardal chwarae awyr agored newydd, sy'n cynnig amrediad eang o brofiadau ysgogol i blant y gall pawb eu mwynhau.

Mae swydd goruchwyliwr newydd wedi'i chreu, a fydd yn galluogi arweinwyr i gynnig rhagor o gymorth strwythuredig i staff.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhelliad o ran hybu annibyniaeth plant a defnyddio'r Gymraeg a datblygu'r man chwarae awyr agored i fabanod.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn ac yn rhyngweithio mewn modd hynod gadarnhaol. Maen nhw'n cyfleu eu dewisiadau'n hyderus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae plant yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn gwybod y gallant ddylanwadu ar sut maen nhw'n treulio'u hamser ac y bydd rhywun yn gwrando ar eu syniadau.

Roedd y plant yn gwneud dewisiadau rheolaidd ynghylch sut i dreulio'u hamser a pha weithgareddau roeddent eisiau cymryd rhan ynddynt. Gwelsom fabanod yn archwilio'u hamgylchedd fel y mynnent; roeddent yn defnyddio arwyddion dieiriau i rannu'r hyn roedden nhw eisiau ei wneud â'r staff. Er enghraifft, roedden nhw'n rhoi gwybod i'r staff pan oeddent eisiau chwarae â'r tywod, gwrandawyd ar eu dymuniadau ac ymatebwyd i'r rhain mewn modd cadarnhaol, a gwnaeth grŵp ohonynt fwynhau'r gweithgaredd yn fawr iawn. Gwnaeth yr holl blant bach ddewis cân yr oeddent eisiau ei chanu'n unigol yn ystod amser cylch, trwy ddewis eitem benodol o focs, a gweiddi enw'r gân yr oedd y tegan yn ymwneud â hi. Roedd plant yn yr ystafell gyn-ysgol yn symud fel y mynnent rhwng yr ardal dan do a'r awyr agored, ac roeddent yn cael cynnig yr un gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio'n eithriadol o dda ym mha bynnag ardal yr oeddent yn dewis chwarae ynddi. Roeddent yn dewis pryd roeddent eisiau mwynhau byrbryd, a chlywsom ni nhw'n siarad yn hyderus â'r rhai hynny o'u cwmpas. Mae plant y clwb ar ôl ysgol yn cynllunio sut maen nhw eisiau treulio'u hamser, maen nhw'n gwneud penderfyniadau ynghylch pa themâu a gweithgareddau maen nhw eisiau cymryd rhan ynddynt, a gwelsom fod eu syniadau wedi'u cofnodi mewn map meddwl.

Mae plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddweud eu dweud a gwneud dewisiadau.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn profi gofal sylwgar sy'n wirioneddol wresog a charedig.

Mae plant yn ffynnu'n wirioneddol yng Nghanolfan y Dderwen, maen nhw'n profi gofal lle y mae'r staff yn gwneud mwy nag sydd raid i wneud yn siŵr bod eu hamser yn ystyrlon ac yn llawn caredigrwydd a chynhesrwydd. Mae babanod yn elwa ar ofal cartrefol, ymatebol; roedd y plant yn cael llawer o ganmoliaeth a charedigrwydd. Roedd babanod yn eistedd yn glyd ar y soffa ar gyfer cofleidiadau a stori, ac roedd y plant yn ceisio staff cyfarwydd yn hyderus. Gwelsom blentyn a staff yn chwarae am gyfnod estynedig gyda ffonau cysylltiedig. Roedden nhw'n sgwrsio â'i gilydd yn gyfforddus wrth symud o gwmpas yr ardd; roedd chwarae dychmygus y plentyn yn cael ei annog a'i estyn oherwydd y diddordeb gwirioneddol roedd gan y staff yn yr hyn roedd yn ei ddweud. Roedd diwrnodau'r plant yn

gyson, roeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd nesaf ac roedd hyn yn rhoi hyder a diogelwch iddynt yn eu hamgylchedd. Nododd rhiant ei fod yn *"hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir, meithrinfa hyfryd, staff cyfeillgar iawn ac, yn bwysicach oll, mae fy mhlentyn wedi ymgartrefu ac yn hapus."*

Mae'r plant teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn, eu bod yn ddiogel ac yn hapus.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn.

Roedd plant yn rhyngweithio ac yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n arbennig o dda; roedden nhw'n gwrando pan oedd hi'n bryd tacluso a phob un yn gweithio'n awyddus i gyflawni'r gwaith. Mae plant yn mwynhau llawer o ryngweithio cadarnhaol, gwelwyd baban a oedd yn cropian yn gwenu ar eraill o ochr draw'r ystafell ac yn dawnsio pan wnaethant ddechrau canu hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau â'i gilydd, ac roedd y babanod yn chwarae, yn chwerthin ac yn lledchwerthin ymhlith y clustogau meddal pan oeddent yn archwilio eu hamgylchedd. Gwelsom ddau blentyn yn mwynhau gweithgaredd chwarae â dŵr, a gwnaethant chwerthin a chymeradwyo pan lwyddodd un ohonynt i lenwi'r twba. Gwelwyd plant yn rhedeg i nôl ei gilydd pan oeddent yn chwarae y tu allan gyda chwyddwydrau i chwilota am drychfilod, gydag un yn rhedeg i nôl y llall i ddangos yr hyn roedd wedi dod o hyd iddo. Gwelsom blant y clwb ar ôl ysgol yn eistedd ac yn ymlacio gyda staff a ffrindiau wrth iddynt chwilota am feillion pedair deilen, gan siarad am sut ddiwrnod roeddent wedi'i gael a phynciau oedd yn bwysig iddyn nhw.

Mae plant yn dechrau deall eu teimladau a'u hemosiynau'n llwyddiannus ac maen nhw'n dysgu sut i fynegi eu hunain yn eithriadol o dda.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

Roedd yr holl blant yn llawn cymhelliant wrth iddynt gymryd rhan yn eu dewis o weithgareddau chwarae a dysgu. Roeddent wedi bod yn dysgu am stori Jac a'r goeden ffa, roedd yr adnoddau a oedd ar gael yn adlewyrchu'r thema ac roeddent yn mwynhau chwarae yn y 'castell' a gwisgo'r eitemau gwisg ffansi. Roedd plant yn croesawu eraill yn eu gemau ac yn dewis pryd roeddent eisiau bod yn brysur a diwyd a phryd roeddent eisiau canolbwyntio ar dasgau tawelach fel tynnu lluniau neu baentio cerrig. Roedd plant wrth eu boddau â'r gweithgaredd chwarae â dŵr, ac roedd babanod yn mwynhau chwarae â'r tywod yn fawr iawn. Roedd pob un ohonynt yn awyddus i fynd allan i chwarae; roedden nhw'n mwynhau toreth o wahanol brofiadau ym mhob ardal awyr agored; roedden nhw'n reidio eu beiciau ar 'ffordd' esgus, yn cloddio am drysor ac yn darllen llyfrau. Roedden nhw'n mwynhau cael cymaint o weithgareddau i ddewis ohonynt, o dan do ac yn yr awyr agored. Roedd plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i gymryd risgiau cadarnhaol ac roedden nhw'n mwynhau dringo'r coed y tu allan. Gwelwyd plant yn dawnsio a gwneud gymnasteg hefyd.

Mae'r holl blant yn cael ymdeimlad ysbrydoledig tu hwnt o gyflawni ac yn cael llawer o werth o'u profiadau chwarae a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus ac annibynnol ac yn gwneud cynnydd da.

Roedd y plant yn cael eu paratoi i drosglwyddo trwy'r ystafelloedd; roeddent yn cael eu cefnogi i ddatblygu a thyfu. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant o'r ystafell plant bach yn cael cymorth i gymryd rhan mewn tasgau â phwyslais penodol a arweinir gan oedolion i'w paratoi i drosglwyddo i'r ystafell gyn-ysgol. Roedd plant cyn-ysgol yn ymweld â'r ysgol gyfagos yn rheolaidd er mwyn paratoi i drosglwyddo i'r ysgol. Roedd plant yn arwain eu chwarae eu hunain mewn modd cadarnhaol, gan ddewis tasgau priodol i'w mwynhau, ac roedden nhw'n elwa ar doreth o gyfleoedd i ddatblygu eu hiaith; er enghraifft, byddai'r staff yn cyfri a'r babanod yn copïo'r sŵn, gan greu synau i'w cefnogi i ddatblygu sgiliau ieithyddol cadarnhaol. Roedd y staff yn defnyddio Makaton i gyfathrebu, a gwelsom blant yn efelychu'r arwyddion roedd y staff yn eu gwneud. Cyflwynwyd y plant i rai geiriau Cymraeg sylfaenol trwy ganu hwiangerddi, a byddai'r plant yn cyd-ganu'n hyderus. Nododd rhieni ar holiadur a gwblhawyd fod eu plentyn, ers mynychu, wedi *"datblygu llawer, mae'n gwneud pethau na fydden ni wedi breuddwydio eu bod yn bosibl, ac ni allaf ddiolch yn ddigon i'r staff am bopeth"*

Yn ystod amser byrbryd, gwelwyd plant yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn clirio eu platiau eu hunain, ac roeddent yn cael hancesi gwlyb i olchi eu hwynebau a'u dwylo pan oeddent wedi gorffen bwyta. Gwnaethom argymell y gallai'r plant gael eu cefnogi a'u hannog i gwblhau rhai o'r tasgau hyn yn annibynnol yn ystod amser cinio

Mae'r plant yn gallu cyflawni pethau drostynt eu hunain; maen nhw'n ffynnu oherwydd y profiadau a gynigir.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff yn drefnus, yn gymwys ac yn frwdfrydig. Maen nhw'n llwyddo i hybu datblygiad cyffredinol y plant drwy weithgareddau amrywiol a diddorol a gynlluniwyd a thrwy eu dull gofalgar ac ymatebol. Mae'r staff yn gymwys a phrofiadol iawn ac yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion plant. Maen nhw'n deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maen nhw'n hybu rhyngweithio cadarnhaol trwy fynd ati mewn modd cyson a bod yn ddelfryd ymddwyn dda.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan staff ddealltwriaeth ragorol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maen nhw'n ymrwymedig i hyrwyddo llesiant cyffredinol y plant.

Roedd hi'n hawdd cael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau ac roeddent wedi'u hymgorffori mewn arferion. Dangosodd y staff ddealltwriaeth gadarn o ddiogelu a sicrhau llesiant parhaus y plant. Roedd y staff y siaradwyd â nhw'n hyderus ac yn gyfarwydd â'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon ynghylch plentyn. Gwnaeth yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gyfle i drafod gyda'i gilydd a chydag arweinwyr i fonitro llesiant y plant, a chedwid cofnodion manwl.

Mae'r staff wedi meithrin perthynas weithio agos ac effeithiol â'i gilydd a chyda rhieni. Roedd ffurflenni damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cwblhau'n llawn ac roedd adolygiad trwyadl yn cael ei gynnal bob mis i ganfod a oedd unrhyw batrymau sylweddol a fyddai'n amlygu bod angen rhoi newidiadau ar waith. Roedd staff wedi dechrau llenwi ffurflen newydd yn ddiweddar pan fyddai plant yn cael eu hanfon adref oherwydd salwch; ac roeddent yn cofnodi pan fyddai'r plentyn yn cael dychwelyd, er mwyn lleihau'r risg o ledaenu heintiau. Nododd staff fod hwn yn newid cadarnhaol a oedd yn gwneud pawb yn gwbl ymwybodol o'r hyn a ddisgwylid ganddynt. Mae'r staff hefyd yn cofnodi anafiadau i'r pen ar ffurflen ar wahân.

Roedd y staff yn dilyn y weithdrefn a argymhellir gan offeryn archwilio rheoli heintiau Cymru gyfan wrth newid cewynnau i leihau'r risg o ledaenu heintiau. Roedd yr wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n ddiweddarach â rheini yn nyddiaduron dyddiol y plant. Roedd y staff yn cynorthwyo'r plant i olchi eu dwylo gyda dŵr a sebon cyn amserau bwyd. Roedd y prydau a'r byrbrydau a ddarparwyd yn iachus a maethlon; paratowyd y byrbrydau gan y staff a chludwyd y prif brydau bwyd o'r ysgol gyfagos. Roedd y staff yn gwirio'r bwyd a gludwyd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weini ar y tymheredd cywir a diogel. Cynigir dewis arall i blant ag alergeddau a dewisiadau deietegol.

Roedd blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i weithgarwch corfforol, gyda'r holl blant yn treulio cyfnod estynedig o amser yn chwarae y tu allan yn yr awyr iach. Roedd staff yn cynorthwyo'r babanod i chwarae yn yr ardal chwarae fwy o faint ar ddiwedd y dydd.

Mae gan y staff fesurau rhagorol ar waith i sicrhau bod iechyd a llesiant cyffredinol y plant yn cael ei hybu.

## 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gyson. Gellir mynd atynt yn hawdd iawn ac maen nhw'n ofalgar.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn modd digynnwrf a gofalgar, ac roedd y plant yn ymateb yn yr un modd. Clywsom lawer o 'os gwelwch yn dda' a 'diolch', ac roedd ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddathlu. Roedd y staff yn canmol ac yn annog y plant yn rheolaidd, gan roi gwybod iddynt ba mor dda roeddent wedi gwneud. Dywedodd y staff wrth y plant pa mor 'ffantastig' oeddent, ac roedd yr holl ryngweithio'n wirioneddol gynnes a chariadus. Roedd y staff yn defnyddio technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol effeithiol; tynnwyd sylw plentyn pan oedd wedi cynhyrfu am ei fod eisiau ei fam, a defnyddiodd staff lais cadarnhaol a'i annog i edrych drwy'r ffenestr gyda'i gilydd i weld beth oedd yn mynd ymlaen. Maen nhw'n modelu ymddygiad priodol ac yn rhoi amser a'u sylw llawn i blant. Mae'r staff yn cefnogi plant i gymryd eu tro a rhannu; pan aeth plentyn ag eitem oddi wrth blentyn arall, cafodd ei gefnogi i ddychwelyd yr eitem, a helpodd y staff ef i gael eitem debyg i chwarae â hi. Dywedodd rhiant wrthym, *"Mae'r staff yn wych ac mor ofalgar"*.

Mae'r staff yn meithrin a hyrwyddo perthnasau cadarnhaol ac maen nhw'n ofalgar a brwdfrydig eu dull, sydd felly'n galluogi'r plant i ffynnu a thyfu.

## 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn llwyr.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn hynod o dda ac yn rhoi digonedd o gymorth pan oedd angen; gan roi amser i'r plant ddilyn eu diddordebau a'u syniadau eu hunain. Er enghraifft, roedd staff wedi trefnu ardal â thema a oedd yn gysylltiedig â stori 'Jac a'r goeden ffa', lle byddai'r staff yn eistedd ar bwys y plant gan siarad am y gwahanol eitemau a darllen y stori iddynt eto. Roeddent yn dangos diddordeb gwirioneddol yn newis y plant o weithgareddau; fe'u clywyd yn trafod faint o falwod yr oeddent wedi dod o hyd iddynt yn yr ardd. Roedd yr ystafell gyn-ysgol wedi'i chynllunio'n hynod o dda, gan sicrhau bod plant yn profi'r holl weithgareddau oedd wedi'u gosod ar eu cyfer, yn unol â fformat Chwarae a Dysgu Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cynllunio'r themâu a'r gweithgareddau trwy ystyried diddordebau a lefel gallu'r plant yn ofalus, a oedd yn gwneud y dysgu'n hwyl ac yn ddiddorol i'r plant. Roedd staff yn cadw cofnodion o ddatblygiad y plant, gan gynnal asesiadau rheolaidd o'u gallu a darparu gweithgareddau priodol a gynlluniwyd yn dda mewn ymateb i hyn, er mwyn ehangu dysgu'r plant. Roedd staff yn cofnodi arsylwadau'n rheolaidd i gynllunio ar gyfer gweithgareddau chwarae a dysgu'r plant yn y dyfodol, a gwelsom dystiolaeth o blant yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch. Roedd plant yn datblygu sgiliau sylfaenol ac roeddent yn cael cymorth ac adnoddau ychwanegol gan y staff, os oedd angen, a chydag asiantaethau a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn sicrhau bod plant yn ffynnu.

Mae'r staff yn ymroddedig ac yn frwdfrydig iawn wrth hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant.

# 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Dilynir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn rhoi newidiadau ar waith pan fo angen.

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer yr holl ardaloedd a ddefnyddir ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol. Roedd asesiadau risg ychwanegol wedi cael eu cwblhau ar gyfer gweithgareddau penodol neu unrhyw newidiadau i'r amgylchedd, ac roedd gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau bob dydd ym mhob ystafell er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel cyn i'r plant gyrraedd. Gwelsom fod trefn lanhau ddyddiol effeithiol yn cael ei rhoi ar waith, gyda dulliau a gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn. Roedd cofnod ymwelwyr a chofrestr ddyddiol yn cael eu cadw, gan gofnodi'r staff a'r plant a oedd yn dod i'r safle; a chedwid cofnod o enw'r oedolyn a fyddai'n casglu'r plentyn ar ddiwedd y dydd. Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal yn rheolaidd; gyda chofnod manwl o'r camau roedd angen eu cymryd a thystiolaeth fod y rhain wedi'u rhoi ar waith yn brydlon. Roedd y llwybr gadael ar frys wedi'i arddangos ym mhob ystafell.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod peryglon yn cael eu nodi a bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau i ddiogelwch plant.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r mannau chwarae dan do ac awyr agored yn groesawgar, wedi'u haddurno'n dda, ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer dysgu. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion grwpiau oedrannau gwahanol a phlant unigol.

Roedd arweinwyr a staff wedi rhoi blaenoriaeth uchel i'r ardal chwarae awyr agored, a defnyddiwyd hi fel rhan annatod o'r amgylchedd dysgu. Roedd arweinwyr a staff wedi gosod yr ardal awyr agored yn ofalus er mwyn galluogi plant i archwilio amrediad o gyfleoedd chwarae, oherwydd roedd yn cynnwys y canlynol: ardal eang gyda glaswellt; cysgodfannau helyg; gwesty trychfilod; sied ac ardal ar wahân oedd newydd ei datblygu a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithgarwch corfforol, llwybr synhwyraidd, teganau y gellid eu reidio, cegin fwd, twnnel a phwll tywod. Roedd plant hŷn yn arbennig yn mwynhau chwarae yn y pwll tywod . Nid oedd gan fabanod fynediad uniongyrchol at ardal awyr agored o'r un safon, a gwnaethom argymell y gallai hon fod yn ardal i'w datblygu ymhellach er mwyn annog a chaniatáu i fabanod symud rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Roedd y man dan do wedi'i drefnu i weddu i oedrannau'r plant mewn gwahanol fannau. Er

enghraifft, roedd gan y plant hŷn fynediad uniongyrchol at y toiledau ac roeddent yn cael mynediad atynt yn annibynnol ac roedd gan fabanod le i gropian ac archwilio yn eu hystafell nhw a oedd yn cynnwys drychau lefel isel. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn lliwgar a chroesawgar a bod gwaith a ffotograffau’r plant yn cael eu harddangos drwy'r feithrinfa, ac roedd hyn yn creu ymdeimlad da o berthyn a diogelwch. Dywedodd holiadur a gwblhawyd gan riant, *"staff anhygoel, amgylchedd anhygoel."*

Mae arweinwyr yn gwneud mwy nag sy'n rhaid i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrediad rhagorol o deganau ac offer o ansawdd da, sy'n rhoi toreth o wahanol weithgareddau diddorol i'r plant.

Roedd yr offer a'r adnoddau wedi'u cynllunio'n ofalus i gynnig amrywiaeth o wahanol gyfleoedd dysgu i'r plant. Roedd gwahanol weadau yn cael eu cyflwyno a, lle bynnag y bo modd, roedd arweinwyr yn defnyddio eitemau naturiol a bywyd go iawn. Gallai'r plant eistedd a darllen o dan do neu yn yr awyr agored, ymhlith clustogau cysurus neu ar y bwrdd a chadeiriau pren. Roedd yr adnoddau ym mhob ystafell yn adlewyrchu oedrannau a chamau datblygu'r plant. Caiff eitemau eu cylchdroi a'u hailgyflenwi, ac mae'r staff yn elwa ar allu symud adnoddau rhwng yr ystafelloedd. Mae'r arweinwyr a'r staff yn defnyddio'r adnoddau i adlewyrchu'r thema gyfredol, er enghraifft, roedd tŷ bach twt yn yr ystafell gyn-ysgol wedi'i droi'n gastell a gwelwyd Jac o'r stori 'Jac a'r goeden ffa' yn hongian o'r nenfwd. Mae staff yr ystafell fabanod yn mynd ati'n ddiwyd i lanhau'r adnoddau'n drwyadl, a chedwir cofnod manwl o bryd caiff eitemau eu glanhau. Roedd system debyg hefyd ar waith mewn ystafelloedd eraill.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrediad rhagorol o adnoddau ac offer ar gael, sy'n hybu chwilfrydedd y plant ac yn gwella eu profiadau a'u datblygiad. Mae’r adnoddau'n ddiddorol ac mae'r plant yn mwynhau eu defnyddio.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae arweinwyr yn ymroddedig ac yn llwyddo i hybu a chefnogi ymdeimlad clir o ddiben. Mae arweinwyr yn ymdrechu i ddarparu gofal o ansawdd uchel ac maen nhw'n darparu profiadau cadarnhaol a chyfoethog ar gyfer y plant. Mae'r staff yn uchel eu cymhelliant, yn fedrus ac yn poeni'n wirioneddol ynghylch y plant. Gwerthfawrogir y gwasanaeth yn fawr iawn gan y teuluoedd a'r gymuned gyfagos.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cynllunio a darparu gwasanaeth rhagorol.

Mae'r arweinwyr wedi cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda, mae'r tîm staff yn gyson ac yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau i fodloni amcanion y gwasanaeth a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r person â gofal ac arweinwyr yr ystafelloedd yn llwyddo i weithio gyda'i gilydd i arwain y gwasanaeth; maen nhw'n weladwy ac ar gael. Maen nhw'n rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i symud ymlaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer cyfeiriad a chyflawniadau'r gwasanaeth. Mae'r person â gofal a'r staff yn ymrwymedig tu hwnt ac yn wirioneddol frwdfrydig, gan yrru'r gwasanaeth yn ei flaen er budd y plant a'r teuluoedd sy'n ei ddefnyddio. Mae'r person â gofal a'r staff yn drylwyr yn eu harweinyddiaeth i ysgogi'r lleoliad i fod yn amgylchedd meithringar a gofalgar, lle mae plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac yn hyderus. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael yn hawdd i'r rhieni a'r staff. Gwnaethom drafod ag arweinwyr gyflwyniad diweddar y 'cynnig gweithredol' a'r disgwyliad i'r Gymraeg fod ar gael yn hawdd yn y gwasanaeth, ac argymhellwn y gellid defnyddio mwy o Gymraeg gyda'r plant o ddydd i ddydd.

Mae gan arweinwyr a staff ymdeimlad clir o bwrpas sy'n hyrwyddo gwelliannau ac sy'n rhagori'n rheolaidd ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd ac yn rhoi strategaethau cadarn ar waith i wella a datblygu'r gwasanaeth lle y bo angen.

Gwelsom dystiolaeth o arweinwyr yn asesu canlyniadau ac yn myfyrio'n rheolaidd ar yr hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'r arweinwyr a'r staff yn cwblhau arsylwadau ar y chwarae a'r ardaloedd yn rheolaidd, ac arsylwir ar wahanol sesiynau gan unigolion nad ydynt fel arfer yn gweithio yn yr ystafell benodol honno. Mae'r arsylwadau'n edrych ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, yr hyn a fyddai'n gweithio'n well ac yn awgrymu cynlluniau ar gyfer y camau nesaf. Gofynnir i weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth lenwi ffurflen adborth, sy'n nodi sut aeth eu hymweliad ac yn cofnodi unrhyw arsylwadau a wnaed ar sut gall

arweinwyr a staff wella'r arferion a'r amgylchedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r arweinwyr yn cynnwys staff mewn unrhyw newidiadau ac yn hyrwyddo ethos cadarnhaol eu bod i gyd yn gweithio fel un tîm. Mae'r arweinwyr yn darparu adborth, cefnogaeth ac arweiniad rheolaidd i'r staff ac roedd pawb wedi cyfrannu at yr adolygiad ansawdd gofal blynyddol.

Cydnabyddir cryfderau a meysydd i'w datblygu, a chaiff camau eu cymryd i gynnal a gwella arferion.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rhoi lefel uchel o gefnogaeth i'r staff a chaiff adnoddau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen.

Roedd yr arweinwyr yn cefnogi'r staff yn eu rolau ac roedd pawb yn gyfarwydd tu hwnt â'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr a'r staff wedi ymroddi i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Roedd y staff yn mynychu hyfforddiant priodol i wella'u gwybodaeth, a chawsom wybod gan y staff fod yr arweinwyr yn cefnogi datblygiad gyrfa staff ar gyfer y dyfodol.

Roedd yr arweinwyr yn cyfleu yr hyn roedd y gwasanaeth yn ceisio'i gyflawni yn glir ac yn cefnogi'r staff i fod yn arloesol, ac roeddent yn gwerthfawrogi'r gwaith roeddent yn ei wneud yn fawr iawn. Mae sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal, ac er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn rheolaidd ac yn ystyrlon, mae aelod uwch o staff wedi cael ei recriwtio'n ddiweddar i roi cymorth i'r person â gofal o ddydd i ddydd.

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel priodol o'u hunain ac eraill, maen nhw'n gosod targedau realistig ac yn fodelau rôl da i ysgogi'r staff.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner ac yn hybu gweithio mewn partneriaeth â rhieni.

Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybodaeth fanwl i rieni ac asiantaethau partner am nodau ac amcanion y gwasanaeth, ac am yr hyn y bydd y plant yn eu profi ac yn elwa arnynt pan fyddant yn mynychu'r gwasanaeth. Mae rhieni'n elwa ar gael gwybodaeth fanwl am gynnydd a chyraeddiadau eu plant yn ystod eu hamser yng Nghanolfan y Dderwen. Roedd yr holl holiaduron rhieni a gwblhawyd yn gadarnhaol dros ben. Dywedodd rhieni ei bod hi'n "*hawdd iawn mynd at y staff ac maen nhw'n rhoi gwybod i ni, y rhieni, sut maen nhw'n datblygu". "Mae fy mab yn mwynhau mynd i Ganolfan y Dderwen yn fawr iawn ac yn dwli ar yr holl staff sydd yno".* Mae hwn yn *"wasanaeth rhagorol, dw i'n ddiolchgar tu hwnt am eu holl waith caled a'u hymdrechion."*

Gwelsom ddigonedd o dystiolaeth o arweinwyr a staff yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau partner, a gwelsom adroddiadau adborth cadarnhaol, gyda phob un ohonynt yn nodi bod y cydweithio effeithiol yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae'r gwasanaeth yn croesawu gweithwyr proffesiynol a rhieni'r gwasanaeth yn rheolaidd, ac yn

rhannol mae’r ganolfan integredig i deuluoedd yn ganolfan i’r gymuned leol.  Mae'r cyfraniad y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i fywyd y plant yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r arweinwyr wedi dechrau cynnal digwyddiadau chwarae yn y gymuned leol yn ddiweddar, gan ehangu'r profiadau cadarnhaol i blant eraill yn y gymuned.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni i wella dysgu a llesiant y plant. Maen nhw'n cael eu hysbysu'n dda ac yn annog y rhieni i fod yn bartneriaid gweithgar.  Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n galed er mwyn hyrwyddo cysylltiadau da â'r gymuned ac asiantaethau partner.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai arweinwyr ystyried y canlynol:

- Cefnogi plant i gwblhau tasgau addas drostynt eu hunain yn ystod amser cinio
- datblygu'r ardal chwarae awyr agored i fabanod ymhellach
- datblygu'r defnydd bob dydd o'r iaith Gymraeg ystyried cynnig gweithredol y Gymraeg.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 14 Mehefin 2018 rhwng 9.20am a 6pm.

Gwnaethom:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- Siarad â'r plant a'r staff;
- Darllen holiaduron gan rieni
- Edrych ar ffeiliau'r plant a ffeiliau'r staff
- Rhoi adborth manwl.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolion cyfrifol | Roger Ellerton<br>Dawn Anderson |
| Person â gofal | Dawn Anderson |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 77 |
| Ystod oedran y plant | Geni hyd at 12 oed |
| Oriau agor | 8am – 6pm<br>Dydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Mai 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 14 Mehefin 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Nid yw'r Gymraeg yn amlwg iawn ar hyn o bryd nac ar gael wrth i'r gwasanaeth gael ei weithredu o ddydd i ddydd. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |